Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llangelynnin

**Canolfan Gymunedol Henryd**
**Ysgol Llangelynnin**
**Henryd**
**LL32 8YB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Llangelynnin

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llangelynnin |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Ddydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Llangelynnin |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Dawn Heginbotham |
| Person â gofal | Dawn Heginbotham |
| Nifer y lleoedd | 15 |
| Amrediad oedran y plant | 2.5 - 4 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 15 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun, Mercher a Iau 9.00 tan 11.00<br>Dydd Llun i Ddydd Gwener 11.30 – 3.00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma arolwg cyntaf y lleoliad yn dilyn ail gofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mawrth 2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 22/05/2024 |
| Mae rhan fwyaf o'r plant yn dod o gartrefi lle mae Cymraeg yn ail iaith | |

## Crynodeb

| **Thema** | **Barn** |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Sicrhau mwy o gyfleoedd i blant ddysgu am amrywiaeth

A2 Ffurfioli prosesau rheoli perfformiad

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan blant lais cryf yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser. Ar gyfer rhannau helaeth o bob sesiwn, gall y plant ddewis yr hyn y maent eisiau chwarae gyda. Maent yn defnyddio'r amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau diddorol i lywio eu cyfleoedd chwarae eu hunain ac i ddatblygu eu syniadau. Mae bron pob plentyn yn cyfathrebu'n hyderus, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn dibynnu ar ddulliau llafar yn unig, gan eu bod yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau setlo cadarn a hyblyg yn helpu'r plant i deimlo'n ddiogel ac i ymlacio. Mae bron pob plentyn yn cyrraedd yn hapus ac yn mynd ati i chwarae. Caiff y nifer fach iawn o blant sydd ychydig yn dawel neu'n ofidus pan fyddant yn cyrraedd eu cefnogi'n effeithiol iawn gan ymarferwyr. O ganlyniad, maen nhw hefyd yn teimlo’n gartrefol yn y lleoliad. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cynnes ac agos gydag ymarferwyr ac yn gwybod y gallant sôn wrthynt am yr hyn y maent ei eisiau. Er enghraifft, mae plant yn gofyn am fwy o ddŵr pan fydd syched arnynt, neu’n holi am gael darllen stori gydag ymarferydd pan fydd awydd arnynt. Mae'r plant yn ymddwyn yn dda iawn ac fel sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygiad. Mae bron pob plentyn yn cyd-chwarae neu'n chwarae ochr yn ochr â'i gilydd. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â threfniadau'r dydd. Maent yn dysgu i ddilyn rheolau ac i barchu pobl eraill ac eiddo, er enghraifft pan fyddant yn cydweithio er mwyn helpu i dacluso.

Mae bron pob plentyn yn ymddiddori'n frwd ac yn barhaus yn eu chwarae. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau diddorol a chyffrous iddynt ddewis o'u plith. O

ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i ganolbwyntio a dyfalbarhau, ac mae bron pob un ohonynt yn treulio cyfnodau estynedig yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Er enghraifft, maent yn creu siapau 2d wrth chwarae gyda thoes ac yn dysgu geirfa sy'n eu helpu i ddisgrifio'r hyn maent yn ei wneud. Er enghraifft, 'rolio' a 'gwasgu' yn ogystal. Maent hefyd yn gallu cyfri ac enwi lliwiau yn hyderus. Mae cyfnodau grŵp gwerthfawr dan arweiniad oedolion hefyd o fudd i'r plant, er enghraifft mae'r cyfnodau amser stori a chanu yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddatblygu eu geirfa. Ar y cyfan, mae'r plant yn dangos brwdfrydedd wrth ymuno yn y cyfnodau hyn.

Mae'r plant yn datblygu ac yn dysgu'n dda drwy'r cyfleoedd eang a ddarperir iddynt. Drwy symud rhwng gweithgareddau a dilyn eu diddordebau eu hunain, maent yn meithrin hyder wrth wneud dewisiadau ac yn gofyn am help pan fydd ei angen arnynt. Maent yn meithrin annibyniaeth ac yn cyflawni tasgau ymarferol drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn gwisgo a thynnu eu cotiau, ac yn rheoli eu hanghenion personol fel golchi eu dwylo'n annibynnol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae arweinwyr wedi datblygu amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn helpu'r ymarferwyr i gadw'r plant yn ddiogel. Cânt eu hadolygu bob blwyddyn. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gadarn iawn am sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae ymarferwyr yn gweithio'n dda i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau trwyadl y lleoliad mewn perthynas â hylendid ac iechyd a diogelwch. Maent yn cwblhau cofnodion perthnasol a manwl ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw gyda'r plant. Maent yn darparu byrbrydau iach a llaeth neu ddŵr i'w yfed. O ganlyniad, maent wedi cael eu cymeradwyo fel darpariaeth addas i blant yn unol a chanllawiau bwyd a maeth cenedlaethol. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn galluogi'r plant i dreulio gymaint o amser ag sy'n bosibl yn yr awyr agored sy'n sicrhau eu bod yn cael digon o awyr iach ac ymarfer corff. Mae ymarferwyr yn cadw cofrestrau presenoldeb cywir a llyfr ymwelwyr ac yn cynnal ymarferion tân, sydd oll yn cyfrannu at sicrhau darpariaeth ddiogel i'r plant.

Mae ymarferwyr yn ofalgar ac yn gefnogol. Maent yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes, hamddenol a chyfeillgar, gan greu awyrgylch cadarnhaol, hapus a bywiog. Mae ymarferwyr yn bwyllog ac yn barchus wrth siarad â'r plant ac wrth siarad â'i gilydd, gan gynnig esiampl da i'r plant. Er enghraifft, maent yn canmol ymgais plentyn am flasu ffrwyth nag oedd yn ei hoffi. Mae polisi rheoli ymddygiad addas yn annog yr ymarferwyr i ddefnyddio technegau cadarnhaol fel esbonio ac arddangos er

mwyn ymdrin â mân ddigwyddiadau. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad eu hunain mewn awyrgylch sy'n meithrin a hyrwyddo eu hunan-barch.

Mae ymarferwyr yn llwyddo i ddiwallu anghenion pob plentyn, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae systemau da iawn ar waith i gefnogi'r plant a'u teuluoedd. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol fel athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol ac yn gweithredu ar gyngor arbenigwyr fel therapyddion iaith a lleferydd. O ganlyniad, mae pob plentyn yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad.

Mae ymarferwyr yn ymatebol iawn i anghenion y plant. Maent yn chwarae'n effeithiol â'r plant er mwyn cefnogi ac ehangu'r dysgu, er enghraifft, trwy ddefnyddio amrywiaeth eang o iaith fathemategol, archwilio llyfrau, trafod syniadau a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth gyffrous o weithgareddau a phrofiadau perthnasol ym mhob un o'r meysydd dysgu a datblygu. Maent yn ystyried hoff deganau, offer a diddordebau'r plant wrth gynllunio, ac yn deall pwysigrwydd caniatáu iddynt barhau i chwarae am gyfnodau estynedig pan fydd rhywbeth o ddiddordeb arbennig iddynt.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu cwricwlwm sy'n cynnig profiadau diddorol ac yn galluogi'r plant i ddysgu trwy chwarae. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o ddatblygiad plentyn ac maent yn rhyngweithio'n dda gyda'r plant. Maent yn ymateb yn brydlon i ddiddordebau a syniadau'r plant. Maent yn sgwrsio a holi'r plant yn fedrus, ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau meddwl a chyfathrebu. Er enghraifft, wrth iddynt arbrofi creu trac a gorsaf trenau mae plant yn cael y cyfleoedd i ymgolli yn eu chwarae a datblygu eu medrau datrys problemau, eu medrau corfforol a'u creadigrwydd.

Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau arsylwi priodol i asesu datblygiad y plant gan addasu'r ddarpariaeth yn sgil eu canfyddiadau. Maent yn goruchwylio'r plant yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â hwy, ac yn ymwybodol o bryd i ymuno yn y chwarae a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i fodelu'r dysgu. Enghraifft nodedig o hyn yw'r cyfle i ddatrys problemau wrth ddefnyddio offer gwahanol, fel synhwyrydd metel i chwilio am ddeunyddiau amrywiol yn y pridd ac o amgylch yr ystafell.

Mae ymarferwyr yn modelu iaith lafar yn dda gan gyflwyno patrymau iaith, geirfa ac ymadroddion, a thrwy ganu bywiog. Er enghraifft, maent yn atgyfnerthu berfau fel 'gwasgu ac ymestyn' wrth chwarae gyda'r toes ac yn pwysleisio geirfa fathemategol fel 'hir a byr' wrth gymharu trac trên. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad mathemategol y plant yn fuddiol trwy arferion cyson. Er enghraifft maent yn eu hannog i gyfri gwrthrychau, cyfatebu a threfnu rhifau, ac enwi siapau cyfarwydd. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n ddoeth i ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant. Er enghraifft, maent yn eu hannog i symud mewn amrywiaeth o ffurfiau, trin peli o wahanol feintiau ac arbrofi cymysgu lliwiau er mwyn chwistrellu paent. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau digidol y plant yn datblygu'n briodol.

Mae'r ystod eang o weithgareddau awyr agored yn annog plant i fentro, i ddod yn archwilwyr hyderus o'u hamgylchedd ac i ddangos gofal a pharch at bethau byw. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i dyfu blodau a pherlysiau ac i ofalu am fwystfilod bach maent yn eu darganfod. Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol, ac hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus. Maent yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddysgu am ddathliadau a gwyliau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ac mae peth adnoddau priodol ar gael. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i'r plant ddysgu am amrywiaeth o ran cefndir diwylliannol, nag i ddysgu am wahanol agweddau ar amrywiaeth, wedi eu datblygu'n llawn hyd yma.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant trwy ddarparu gweithdrefnau sy'n sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu hadnabod, eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Maent wedi llunio asesiadau risg trylwyr sy'n amlinellu peryglon posibl a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Maent hefyd yn gwirio'r dogfennau yma'n gyson, ac yn cwblhau asesiadau ychwanegol ar gyfer unrhyw weithgareddau newydd. Mae ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol o'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau ac yn cadw cofnod o unrhyw gamau pellach sydd angen eu dilyn. Mae ymarferwyr yn delio gydag unrhyw beryglon sy'n cael eu canfod yn gyflym ac yn effeithiol. Er enghraifft, trwy lanhau ffrwyth oddi ar y llawr er mwyn lleihau'r risg o lithro.

Mae'r ystafell chwarae yn gyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael teimlad o berthyn trwy arddangos esiamplau o'u gwaith ar y waliau gan gynnwys ffotograffau'r plant yn eu chwarae. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr ystafell chwarae yn cynnig ystod eang o weithgareddau ac adnoddau ysgogol a chyffrous sy'n cyfoethogi profiadau'r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, ceir ardal baentio, llyfrau darllen, ardaloedd marcio a chwarae toes a'r rhain yn ysgogi plant i ddefnyddio'u dychymyg. Mae'r ardal tu allan yn gaeedig ac yn cynnig profiadau chwarae yn y gegin fwd a cheir dosbarth allanol mewn ardal laswelltog. Mae'r plant hefyd yn cael cyfleoedd i ddefnyddio darpariaeth allanol yr ysgol pan nad yw'n cael eu defnyddio gan y plant hŷn.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ystod eang o adnoddau yn lân ac o ansawdd da. Maent yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Cedwir cofnodion trylwyr o'r tasgau glanhau, gan gynnwys cofnodion rheolaidd sy'n nodi pryd gafodd y teganau eu di-heintio.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n llywio cyfeiriad pwrpasol i weithdrefnau'r lleoliad. Mae'r weledigaeth yn seiliedig ar ddarparu gofal o ansawdd uchel o fewn awyrgylch deuluol, ysgogol a hapus. Maent yn gweithredu'n ddiwyd i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion pob plentyn ac yn darparu amrediad cyfoethog o brofiadau difyr ac ymestynnol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y datganiad o ddiben

yn gynhwysfawr ac yn darparu gwybodaeth angenrheidiol i rieni ac maent hefyd yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau hunanwerthuso priodol sy'n dylanwadu'n effeithiol ar arferion y lleoliad. Gwneir defnydd pwrpasol o'r cynllun datblygu sy'n cynnwys targedau priodol a chamau gweithredu addas. Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n barhaus ar wella'r ddarpariaeth er mwyn datblygu medrau a hybu lles y plant. Er enghraifft, maent yn ymateb i gyngor athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol wrth ystyried sut i gynnwys diddordebau'r plant wrth gynllunio'r ddarpariaeth

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn deall eu rolau'n dda. Maent yn cydweithio'n effeithiol fel tîm er mwyn cynnig cyfleoedd buddiol i'r plant. Maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau dysgu proffesiynol er mwyn datblygu eu harferion mewn gwahanol agweddau o ofal ac addysgu. Mae trefniadau recriwtio diogel yn cael eu gweithredu'n briodol ac mae gan bob ymarferydd gymhwyster a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant. Fodd bynnag, nid yw'r arferion monitro ar gyfer goruchwylio a gwerthuso perfformiad wedi gwreiddio'n llawn hyd yma.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd doeth o'r gyllideb a grantiau i gefnogi blaenoriaethau gwella a diwallu anghenion plant. Er enghraifft, trwy gyllido gwelliannau yn yr ardal allanol, darparwyd adnoddau deniadol o ansawdd da sy'n cefnogi dysgu'r plant ac yn cyfoethogi eu profiadau'n llwyddiannus.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi sefydlu partneriaeth fuddiol gyda rhieni a gofalwyr, a gydag athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a mudiadau ymbarél er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Er enghraifft, maent yn darparu lluniau o weithgareddau'r plant ar gyfryngau cymdeithasol diogel yn wythnosol er mwyn sicrhau mynediad llawn i rieni a gofalwyr at addysg a phrofiadau'r plant. Yn ogystal, mae gan y lleoliad bartneriaeth dda â'r ysgol ac maent yn rhannu'r safle ac adnoddau yn ddeallus. Er enghraifft, mae'r plant yn cael mynychu sesiynau blasu yn nosbarth meithrin yr ysgol. O ganlyniad, mae trefniadau da ar waith i sicrhau bod y plant yn trosglwyddo i'r cam nesaf yn eu haddysg yn llyfn a didrafferth.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 24 Gorffennaf 2024